



Llywodraeth EM

Dywedwch Wrthym Unwaith

*Dywedwch Wrthym Unwaith - menter y
llywodraeth i helpu'r sawl sydd wedi cael
profedigaeth*

Mae Dywedwch Wrthym Unwaith yn wasanaeth y llywodraeth am ddim sy'n eich galluogi i roi gwybod am farwolaeth pan rydych yn dioddef profedigaeth ac angen dweud wrth lywodraeth ganolog a llywodraeth leol.

Pan fydd rhywun wedi marw, mae llawer o bethau y mae angen eu gwneud, ar adeg pan mae'n debyg na fyddwch yn teimlo fel eu gwneud. Bydd hyn yn cynnwys cysylltu ag adrannau'r Llywodraeth a gwasanaethau cyngor lleol sydd angen eu hysbysu.

"Mae hwn yn wasanaeth da iawn. Y peth olaf sydd ei angen arnoch ar adeg drist pan rydych wedi colli rhywun annwyl yw eistedd ger y ffôn am oriau'n canslo popeth."

**Cwsmer profedigaeth
Swydd Rydychen**

Pan fyddwch yn defnyddio Dywedwch Wrthym Unwaith, bydd y gwasanaethau a hysbyswyd yn cynnwys:

- Pensiynau a Budd-daliadau DWP
- Treth Bersonol
- Treth Cyngor
- Pasbort
- Trwydded Yrru
- Y Bathodyn Glas
- Cofrestr Etholiadol
- Pensiynau Sector Cyhoeddus

Bydd angen i chi gysylltu â'ch Swyddfa Gofrestru cyn defnyddio'r gwasanaeth Dywedwch Wrthym Unwaith sydd fel arfer pan fyddwch yn cofrestru'r farwolaeth.

Bydd y Cofrestrydd yn eich cyngori ar sut i ddefnyddio'r gwasanaeth.

Yr opsiynau i gysylltu â'r gwasanaeth Dywedwch Wrthym Unwaith yw:

Ar-lein



Wyneb yn Wyneb



Ffôn



Am fwy o wybodaeth am Ddywedwch Wrthym Unwaith ewch i'r wefan .GOV:

www.gov.uk/tell-us-once